*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda - Rhif 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **23 Hydref 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Dirprwy Brif Swyddog Tân Dawn Docx** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris** |
| Pwnc | **Rheoli Risgiau Strategol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb i'r aelodau o gofrestr risgiau strategol yr Awdurdod, a hynny yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag cael y canlyniadau a gynlluniwyd a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae cofnodion ar y gofrestr yn cael sgoriau risgiau sy'n cael ei hail-werthuso'n rheolaidd gan y swyddogion er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'r effaith a ragwelir gan wrth-fesurau arfaethedig. Yn y cyfarfod, bydd yr aelodau'n cael crynodeb o gofnodion diweddaraf y gofrestr.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr aelodau'n nodi'r risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.

**CEFNDIR**

4 Mae Polisi Rheoli Risgiau Strategol yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

5 Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno am y risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a rhwng yr adegau hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

6 Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi lefelau risgiau yn y presennol a'r dyfodol os yw gwrth-fesurau arfaethedig wedi cael yr effaith y dymunir iddynt ei chael.

7 Mae lefelau risg yn seiliedig ar werthuso pa mor debygol yw rhywbeth o ddigwydd a beth fyddai'r canlyniadau petai hynny'n digwydd. Rhoddir disgrifiadau yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

8 Mae swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu, tynnu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Darperir crynodeb yn y cyfarfod o'r cofnodion diweddaraf yn y gofrestr sydd ar gael.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cadw'r gofrestr a gweithredu i reoli risgiau yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cadw'r gofrestr yn gymorth i flaenoriaethu penderfyniadau ynghylch gwariant a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cadw'r gofrestr yn gymorth i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r deddfau sy'n diffinio ei swyddogaethau a sut mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Gallai'r Awdurdod fod yn agored i niwed petai'r gofrestr yn cael ei rhyddhau drwy ddamwain. |

**Atodiad 1**

## Dadansoddi Risgiau

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TEBYGOL-RWYDD** | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | **CANLYNIAD** | | | | |

## Graddfa blaenoriaeth risgiau

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel – risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig – risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig – risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |